# Sioe Frenhinol Cymru
# Royal Welsh Show

## *Pentref Garddwriaeth*
## *Horticulture Village*

22 - 25 Gorffennaf • July 2024





CAFC RWAS

Cyfleoedd Noddi a Hysbysebu • Advertising & Sponsorship Opportunities

RWAS ASSISTANT HONORARY DIRECTOR OF HORTICULTURE
ADAM JONES

CYFARWYDDWR GARDDWRIAETH CYNORTHWYOL ER ANRHYDEDD CAFC
ADAM JONES



CAFC
RWAS

Helo 'na,

Adam Jones ydw i, Cyfarwyddwr Garddwriaeth Cynorthwyol er anrhydedd Cymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am eich diddordeb mewn cefnogi datblygiadau'r pentref garddwriaeth yn y Sioe Fawr eleni.

Ein bwriad wrth sefydlu Pentref Garddwriaeth newydd ydy dod â holl elfennau gwych garddwriaeth Cymru ynghyd mewn un dathliad arbennig yn ystod wythnos y Sioe Fawr yng Ngorffennaf. Bydd y pentref yn adeiladu ar draddodiad hir o gystadlu brwd ym maes llysiau a chelf blodau yn ogystal ac agor cwr y llen ar gyfleoedd newydd i gefnogi a thyfu'r sector yng Nghymru i'r dyfodol. Mae sicrhau ein bod yn denu cenhedlaeth newydd o arddangoswyr a thyfwyr i gystadlu a dathlu eu gwaith yn y sioe yn holl bwysig a dyna pham fydd cydweithio â byd addysg a sgiliau yn ganolog i'n gwaith eleni.

Rwyf wirioneddol wedi fy nghyffroi â photensial y pentref garddwriaeth a'r datblygiadau newydd a gobeithiaf y gallwch gefnogi ein gweledigaeth a'n hethos i ysbrydoli, addysgu a chydweithio. O gydweithio parod ac ystyrlon gwn y gallwn dyrchafu garddwriaeth Cymru ar blatfform rhyngwladol a dod â bri i'r maes am genedlaethau i ddod.

Shwmae!

I am Adam Jones, Assistant Honorary Director of Horticulture for the Royal Welsh Agricultural Society and I would like to take this opportunity to thank you for your interest in supporting the developments of the horticulture village at the Royal Welsh Show this year.

Our intention in establishing a new Horticultural Village is to bring together all the great elements of Welsh horticulture in one big celebration during the Royal Welsh show in July. The village will build on a longstanding tradition of keen competition in both Floral Art and exhibiting fruits and vegetables as well as open the door to new opportunities to support and grow the sector in Wales for the future.

Ensuring that we nurture a new generation of exhibitors and growers to compete and celebrate their work at the show is very important and that is why collaboration with the education and skills will be central to our work this year.


I am really excited about the potential of the horticulture village and the new developments and I hope that you can support our vision and ethos to inspire, educate and collaborate. From willing and meaningful collaboration, I know that we can promote Welsh horticulture on an international platform and bring prestige to this sector for generations to come.

Yn ddiffuant,

Adam Jones

# Ein Dyhead Our Aspiration

**Bydd y pentref yn dathlu pob agwedd ar arddwriaeth yng Nghymru** - o dyfu cymunedol i dyfu masnachol, cystadlaethau ac arddangosfeydd. Ochr yn ochr â hyrwyddo manteision iechyd a chymdeithasol garddio, addysg ac adeiladu cadwyn gyflenwi gwydn llawn cynnyrch Cymreig cynaliadwy.



**The village will celebrate all aspects of horticulture in Wales** - from community to commercial growing, competitive showing and displays. Alongside promoting the health and social benefits of gardening, education and building a resilient supply chain of sustainable Welsh produce.

**Ein hethos yw 'Ysbrydoli, addysgu a chydweithio.'** Lle i ysbrydoli wrth arddangos rhagoriaeth gydag arddangosfeydd cystadleuol yw'r Pentref Garddwriaeth. Lle ar gyfer addysg a dysgu wrth weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau. Bydd hefyd yn creu cyfleoedd i gydweithio trwy greu mannau cymdeithasol cynhwysol, mannau cyfarfod a llwyfan sgwrsio ac arddangos.





**The ethos is to 'inspire, educate and collaborate.'** The village will be a space to inspire by showcasing excellence with competitive exhibits and displays. It will be a place for education and learning by working in partnership with schools and colleges. And it will create an opportunity to collaborate through inclusive social spaces, meeting areas and a stage for demonstrations and talks.

**Mae'r dyluniad yn seiliedig ar ein dyheadau allweddol o sicrhau cynwysoldeb a bioamrywiaeth**, gyda siapiau organig a llwybr cerdded ffigur wyth yn wahanol i ddyluniad geometrig maes y sioe. Yn y canol mae strwythur arddull amffitheatr i weithredu fel llwyfan ar gyfer sgyrsiau, seminarau ac arddangosfeydd rhyngweithiol trwy gydol yr wythnos. Gallai'r ddwy ardal siâp deilen ganolog gynnal gerddi sioe ac arddangosfeydd gan stondinwyr, partneriaid a chystadleuwyr.



**The design is based on our key aspirations of inclusivity and biodiversity**, with organic shapes and a figure of eight walkway in contrast to the geometric design of the showground. In the middle is an amphitheatre style structure to act as a stage area for talks, seminars and interactive displays throughout the week. The two central leaf shaped areas in the middle could hold show gardens and displays from stallholders, partners and competitors.

# MANTEISION I'CH BUSNES...

GYDA DROS 200,000 O YMWELWYR Â'R SIOE GWNEWCH YN SIŴR NAD YDYCH YN COLLI'R CYFLEOEDD I GYFARFOD Â CHWSMERIAID A CHLEIENTIAID NEWYDD AR DDECHRAU TYMOR DANGOS YR HAF.

Cyrraedd at gynulleidfaoedd teledu eang trwy gyfrwng rhaglenni a gaiff eu darlledu cyn, yn ystod ac wedi'r digwyddiadau ar S4C, y BBC ac ITV.

Lluniwch ymddiriedaeth yn eich brand trwy weithio mewn partneriaeth â brand Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol.

Manteisiwch ar ein Gwefan a'n hymgysylltiad â'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Defnyddiwch docynnau'r Sioe a bathodynnau noddwr i gyfarfod ac ymgysylltu â'ch cwsmeriaid a noddwyr eraill wrth adeiladu eich rhwydwaith busnes.

# BENEFITS TO YOUR BUSINESS...

WITH OVER 200,000 VISITORS TO THE SHOW BE SURE NOT TO MISS OUT ON THE OPPORTUNITIES TO MEET NEW CUSTOMERS AND CLIENTS AT THE BEGINNING OF THE SUMMER SHOWING SEASON

Reaching wide television audiences through programmes aired before, during and after the events on S4C, BBC and ITV.

Build brand trust from working in partnership with our internationally recognised Royal Welsh Agricultural Society brand.

Benefit from our Website and Social Media engagement.

Utilise event tickets and sponsor badges to meet and engage with your customers and other sponsors in building your business network.




Chives
CAFC
RWAS

# Pecynnau Nawdd Sponsorship Levels

**Bydd holl Noddwyr Garddwriaeth CAFC dros £500 yn derbyn y canlynol:**

- Logo ar Ford/Fwrdd y Noddwyr
- Tocynnau Mynediad Un diwrnod
- Copi am ddim o gyhoeddiadau'r digwyddiad
- Cydnabyddiaeth yng nghyhoeddiadau Swyddogol y digwyddiad
- Cyfle ar gyfer lluniau cyhoeddusrwydd
- Cyfle i gyflwyno gwobrau a dyfarniadau (ble mae'n briodol)

## Tegeirian

Pris: £5000 +TAW
8 Bathodyn Noddwr
18 Tocyn Mynediad Un Diwrnod
2 Wahoddiad i'r Cinio Swyddogol
2 Docyn Blaen y Maes Parcio ar gyfer Diwrnod/au Dewisol
Defnydd o'r llecyn lletygarwch ym Mhafiliwn y Noddwyr a seddi wedi'u cadw yn y brif eisteddle
Cyhoeddiadau sylwebydd ac uwchseinydd gyda thestun a gytunwyd o flaen llaw
Logo'r cwmni a dolen ar wefan swyddogol CAFC
Gallu i ddefnyddio 'Noddwr CAFC' a logo ar yr hysbysebu swyddogol a brandio ar y cyd
Hyrwyddiad cyfryngau cymdeithasol personol trwy gyfrifon X a Facebook y Gymdeithas
Hawl i brynu tocynnau â disgownt
Golygyddol a brandio yng nghylchlythyr digidol y Gymdeithas.
10% o Ddisgownt ar stondin Fasnach yn y Pentref Garddwriaeth (ar yr amod bod un ar gael).

## Briallen

.Pris: £2500 +TAW
6 Bathodyn Noddwr
12 Tocyn Mynediad Un Diwrnod
2 Docyn Blaen y Maes Parcio ar gyfer Diwrnod Dewisol
Defnydd o'r llecyn lletygarwch ym Mhafiliwn y Noddwyr a seddi wedi'u cadw yn y brif eisteddle
Cyhoeddiadau sylwebydd ac uchelseinydd gyda thestun a gytunwyd o flaen llaw
Logo'r cwmni a dolen ar wefan swyddogol CAFC
10% o ddisgownt ar stondin Fasnach yn y Pentref Garddwriaeth (ar yr amod bod un ar gael).

## Llygad y dydd

Pris: £1000 +TAW
2 Fathodyn Noddwr
4 Tocyn Mynediad Un Diwrnod
2 Docyn Blaen y Maes Parcio ar gyfer Diwrnod/au Dewisol
Defnydd o'r llecyn lletygarwch ym Mhafiliwn y Noddwyr a seddi wedi'u cadw yn y brif eisteddle
Cyhoeddiadau sylwebydd ac uchelseinydd gyda thestun a gytunwyd o flaen llaw
5% o ddisgownt ar stondin Fasnach yn y Pentref Garddwriaeth (ar yr amod bod un ar gael).

## Dant y llew

£500 +TAW
2 Docyn Mynediad Un Diwrnod
Cyfle i gael stondin fasnach yn y Pentref Garddwriaeth (ar yr amod bod un ar gael)






# Pecynnau Nawdd Sponsorship Levels

**All RWAS Horticulture Sponsors over £500 will receive the following:**

- Logo on Sponsors Board
- One-day Admission Tickets
- Complimentary copy of event publications
- Acknowledgement in Official events publications
- Opportunity for publicity photos
- Opportunity to present prizes and awards (where appropriate)

## Orchid

Price: £5000 +VAT
8 Sponsors Badges
18 One Day Admission Tickets
2 Official Luncheon Invitations
2 Forward Carpark Passes For Selected Day/s
Use of hospitality area in the Sponsor's Pavilion and reserved seating in main grandstand
Commentator and tanoy announcements with pre-agreed text
Company logo and link on the official RWAS website
Ability to use 'Sponsor of RWAS' and logo on official advertising and joint branding
Personalised social media promotion via the Society's X and Facebook accounts
Entitlement to purchase discounted tickets
Editorial and branding in Society's digital newsletter.
10% Discount on Trade stand in Horticulture Village (subject to availability).

## Primrose

Price: £2500 +VAT
6 Sponsor Badges
12 One Day Admission Tickets
2 Forward Carpark Passes For Selected Day
Use of hospitality area in the Sponsor's Pavilion and reserved seating in main grandstand
Commentator and tanoy announcements with pre-agreed text
Company logo and link on the official RWAS website
10% Discount on Trade stand in Horticulture Village (subject to availability).

## Daisy

Price: £1000 +VAT
2 Sponsor Badges
4 One Day Admission Tickets
2 Forward Carpark Passes For Selected Day/s
Use of hospitality area in the Sponsor's Pavilion and reserved seating in main grandstand
Commentator and tanoy announcements with pre-agreed text
5% discount on Trade stand in Horticulture Village (subject to availability).

## Dandelion

£500 +VAT
2 One-day Admission Tickets
Opportunity to acquire a tradestand in the Horticulture Village (subject to availability)









## DYSGUBOR – HWB DYSGU A SGILIAU/ THE LEARNING AND SKILLS HUB

Hwb ar gyfer Colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant, prifysgolion a sefydliadau sgiliau ac addysg i rannu gwybodaeth am lwybrau gyrfa, uwchsgilio ac arallgyfeirio i arddwriaeth.

Hub for Further Education Colleges, Apprenticeship and Training Providers, Universities and Skills and Education Institutes to share information about career paths, upskilling and diversification into horticulture

## EISTEDDFLODAU – PABELL FLODAU / FLORAL MARQUEE

Mae'r Eisteddflodau yn gartref i holl gystadlaethau blodau'r sioe ac yn adeiladu ar hanes a thraddodiad hir a chyfoethog o arddangosfeydd celf blodau o safon rhyngwladol.

The Eisteddflodau hosts all of the floral art competitions and builds upon a long and rich history of floral art exhibitions of international standard.

## CWTSH Y CNYDAU – PABELL LYSIAU A FFRWYTHAU / VEGETABLE AND FRUIT MARQUEE

Mae Cwtsh y Cnydau yn gartref i holl gystadlaethau arddangos llysiau'r sioe ac yn ddathliad o gynnyrch gorau Cymru.

Cwtsh y Cnydau hosts all of the vegetable and fruit competitions and is a celebration of the best produce of Wales.

Rydym yn chwilio am bartneriaid i gydweithio â chefnogi ariannu’r elfennau penodol o’r pentref garddwriaeth yn benodol.



We are seeking partners to support and work with us to fund these specific elements of the horticultural village in particular.

## BWA’R BOBOL – LLWYFAN / STAGE

Llwyfan ar gyfer adloniant, sgyrsiau garddwriaeth a pherfformiadau yw bwa’r bobol gydag ardal i eistedd a mwynhau’r arlwy sydd ar gael.

Bwa’r Bobol is a stage for entertainment, horticultural talks and performances with a seating area to enjoy what’s on offer.

## TAWELWEDD – GARDD SYNHWYRAIDD / SENSORY GARDEN

Gardd synhwyraidd ac ardal eistedd tawel yw Tawelwedd gyda ffocws ar greu hafan i unigolion fynd i fwynhau ennyd o lonyddwch.

Tawelwedd is a sensory garden and quiet seating area with a focus on creating a haven for individuals to enjoy a moment of tranquility.

## YR ARDDANGOSFA - GERDDI ARDDANGOS / SHOW GARDENS

Ardal i sefydliadau addysg, grwpiau cymunedol a garddwyr arddangos eu doniau garddio ar ffurf gerddi arddangos yw’r ardd.

Yr ardd is an area for educational institutions, community groups and gardeners to show their horticultural talents in the form of show gardens.

# What will the sponsorship fund?

Branding and paying for the marquee to host the educational institutions

Cash prizes for the winners of the competitive classes

Sponsor further education colleges and community groups to create show gardens.

Workshops and guest speakers

Build of the sensory garden and seating area.

Shop window for skills programmes and careers within the sector

Musicians and light entertainment

Branding and paying for the build of the stage and the seating area.

# Beth fydd yr arian nawdd yn ei ariannu?

Brandio a thalu am y babell i gynnal y sefydliadau addysg i gyd

Brandio a thalu am adeiladu’r llwyfan a’r ardal eistedd

Noddi colegau addysg bellach a grwpiau cymunedol i greu gerddi arddangos

Gweithdai sgiliau a siaradwyr gwadd

Adeiladu’r ardd synhwyraidd a’r ardal eistedd

Ffenest siop i raglenni sgiliau a gyrfaoedd yn y sector

Cerddorion ac adloniant ysgafn

Gwobrau ariannol i enillwyr y dosbarthiadau cystadlu

# Cysylltu Get in touch












I gael mwy o wybodaeth am becynnau hysbysebu sydd ar gael cysylltwch â'n tîm hysbysebu os gwelwch yn dda.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Sioe Frenhinol Cymru ac at ddod yn bartner gwerthfawr.

For more information on advertising packages available and bespoke opportunities please contact our sponsorship team.

We look forward to welcoming you to the Royal Welsh Show and becoming a valued partner.

**01982 554410**

**lois@rwas.co.uk**

**Royal Welsh Agricultural Society**
**Royal Welsh Showground**
**Llanelwedd**
**Builth Wells**
**Powys**
**LD2 3SY**